# Asesiad o Arwyddocâd Effaith Datblygu ar Ardaloedd o Dirwedd Hanesyddol

# (ASIDOHL)

# Tir ar Queens Road, Llandudno

# (Datganiad Clo yn unig*)

**Hydref 2024**

"Mae'r adroddiad ASIDOHL llawn ar gael ar gais

# 1 Datganiad Clo

1.1. Daeth yr asesiad i'r casgliad mai ychydig iawn o effaith (niweidiol) fyddai datblygiad preswyl ar y safle'n ei chael ar Ardal o Dirwedd Hanesyddol Creuddyn ac Ardal o Gymeriad Tirwedd Hanesyddol Llandudno, sydd o fewn Tirwedd Hanesyddol Gofrestredig Creuddyn ac Arllechwedd. O ran gwerth cyffredinol yr ardal o dirwedd hanesyddol ar y gofrestr, mae'r effaith hon yn isel iawn ac mae'r nodweddion allweddol sy'n cyfrannu at ddiddordeb arbennig yr ardal fwy neu lai'n aros yr un peth.

1.2. Mae'r safle'n cynnwys tir i'r dwyrain a'r gorllewin o Wormhout Way, i'r de o Queens Road, ar ffin ddeheuol Llandudno, o fewn Cymuned Llandudno. Defnyddir y safle fel tir amaethyddol ar hyn o bryd, gyda phatrwm caeau sydd â'r un elfennau a welir ar y map degwm o ganol y 19eg ganrif ac yn dyddio i gyfnod o gau tir yng nghanol y 19eg ganrif neu'n gynt. Mae'r safle wedi'i leoli i'r gogledd o Barc a Gardd Cofrestredig Gloddaeth ac yn agos at y ffermdy rhestredig gradd II yn Fferm, a Chylch Cutiau Coed Gaer Oes yr Haearn neu'r Oes Rufeinig. Mae Tŵr Bryniau (heneb gofrestredig a statws rhestredig gradd II) hefyd o fewn 1km o'r safle.

1.3. Fodd bynnag, mae topograffeg yr ardal yn cynnwys y tir isel ar y safle a'r grib galchfaen i'r de a'r dwyrain sy'n atal golygfeydd rhwng y safle a nifer o asedau hanesyddol o fewn yr ardal o dirwedd hanesyddol, mae yna hefyd gryn dipyn o goetir sy'n darparu sgrinio ychwanegol i'r safle, yn arbennig wrth edrych tuag at y safle o gyfeiriad Gloddaeth.

1.4. Mae datblygiad trefol Llandudno i'r gogledd yn fodern ac yn gwahanu'r safle oddi wrth craidd hanesyddol Llandudno a'r bensaernïaeth bwysig o ddiwedd y cyfnod Fictoraidd ac Edwardaidd yn y dref. Un o nodweddion allweddol Ardal o Dirwedd Hanesyddol Llandudno yw'r bensaernïaeth, sy'n nodweddiadol o gyrchfan arfordirol Fictoraidd. Nid yw'r cymeriad hwn yn bresennol o fewn nac yn ardal gyfagos y safle, ac felly ni fyddai'r safle'n cael effaith ar hyn.

1.5. Mae elfennau pwysig o Ardal o Dirwedd Hanesyddol Creuddyn yn cynnwys golygfeydd o Dŵr Bryniau, y parcdir yng Ngloddaeth a'r waliau calchfaen a'r ffermydd gwasgarog. Nid oes unrhyw un o'r rhain yn bresennol ar y safle ac felly ni fyddai'r nodweddion hyn yn cael eu heffeithio.

1.6. O ganlyniad, daethpwyd i'r casgliad mai ychydig iawn o effaith niweidiol fyddai'r safle hwn yn ei chael ar Ardaloedd o Dirwedd Hanesyddol Creuddyn a Llandudno a Thirwedd Hanesyddol Gofrestredig Creuddyn ac Arllechwedd, yn seiliedig ar dechneg asesu'r ASIDOHL.